

PEMBROKESHIRE COAST NATIONAL PARK AUTHORITY
DEVELOPMENT MANAGEMENT COMMITTEE

REPORT OF SOLICITOR

SUBJECT: MEMBERS' DUTIES IN DETERMINING APPLICATIONS

1. The purpose of this report is to briefly summarise the role of this Committee within the planning system.
2. The planning system is a statutory code which regulates the rights of landowners and others interested in land in order to ensure that the development and use of land reflects the public interest. Planning decisions must be made in accordance with its provisions.
3. The public interest is expressed through the development plan. Currently, the plan for the Pembrokeshire Coast National Park is the Local Development Plan adopted by this Authority in September 2010. The law requires planning decisions to be taken in accordance with the development plan unless material considerations indicate otherwise.
4. Material considerations can be:
 - (a) National planning policy, which is set out in Planning Policy Wales and the accompanying Technical Advice Notes.
 - (b) Considerations relating to the planning history of a site, highways, nature conservation, noise, loss of privacy, the layout, design and appearance of a proposed development, and any effects on a listed building or conservation area.
 - (c) The need to conserve and enhance the natural beauty, wildlife and cultural heritage of the National Park, and to promote opportunities for the understanding and enjoyment of the special qualities of the National Park by the public.
5. Non-material considerations must be disregarded when taking planning decisions. For example, issues such as loss of view, or negative effect on the value of properties, are not material considerations. Personal circumstances are only very rarely material to planning decisions.
6. The Human Rights Act 1998 incorporated into domestic law the rights set out in the European Convention on Human Rights. Provided that Members apply the statutory code lawfully and in a fair and impartial manner, they will have complied with their statutory duties under the Planning Acts and will thereby also have acted in accordance with the Human Rights Act 1998.
7. The Authority has also adopted a Members' Planning Code of Good Practice, which explains and supplements the statutory Members' Code of Conduct in the context of the planning system. It is important that Members ensure that they apply the guidance contained in the Planning Code of Good Practice whilst carrying out their statutory duties.

PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU
PARC CENEDLAETHOL ARFORDIR PENFRO

ADRODDIAD CYFREITHIWR

PWNC: DYLETSWYDDAU'R AELODAU WRTH BENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

1. Diben yr adroddiad hwn yw rhoi crynodeb o rôl y Pwyllgor hwn o fewn y system gynllunio.
2. Cod statudol yw'r system gynllunio sy'n rheoli hawliau tiffeddianwyr ac eraill sydd â buddiant mewn tir, er mwyn sicrhau bod datblygu a defnyddio tir yn adlewyrchu budd y cyhoedd. Rhaid gwneud penderfyniadau cynllunio yn unol â'i ddarpariaethau.
3. Mynegir budd y cyhoedd drwy gyfrwng y cynllun datblygu. Ar hyn o bryd, y cynllun ar gyfer Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yw'r Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod hwn ym mis Medi 2010. Yn ôl y gyfraith rhaid i benderfyniadau cynllunio gael eu gwneud yn unol â'r cynllun datblygu, oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn awgrymu fel arall.
4. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o ystyriaethau perthnasol:
 - (a) Polisi cynllunio cenedlaethol, sydd wedi'i bennu ym Mholisi Cynllunio Cymru a'r Nodiadau Cyngor Technegol sy'n cyd-fynd â hwy.
 - (b) Ystyriaethau sy'n ymwneud â hanes cynllunio safle, priffyrdd, cadwraeth natur, sŵn, colli preifatrwydd, llunwedd, dyluniad a golwg datblygiad arfaethedig, ac unrhyw effaith a gaiff datblygu ar adeilad rhestredig neu ardal gadwraeth.
 - (c) Yr angen am warchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwylt a threfnadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol, a rhoi cyfle i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol.
5. Rhaid diystyru ystyriaethau amherthnasol wrth wneud penderfyniadau cynllunio. Er enghraifft, nid yw pethau fel colli golygfa neu fod datblygiad yn cael effaith negyddol ar werth eiddo yn ystyriaethau perthnasol. Anaml iawn y mae amgylchiadau personol yn berthnasol i benderfyniadau cynllunio.
6. Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 wedi ymgorffori'r hawliau yng Nghonfensiwn Ewrop ar Hawliau Dynol yn ein cyfraith ddomestig. Ar yr amod bod yr aelodau yn cymhwyso'r cod statudol yn gyfreithlon ac mewn modd teg a diduedd, byddant wedi cydymffurfio â'u dyletswyddau statudol o dan y Deddfau Cynllunio a byddant, felly, wedi gweithredu yn unol â Deddf Hawliau Dynol 1998.
7. Hefyd, mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu Cod Arferion Da i Aelodau ym maes cynllunio. Mae hwn yn esbonio ac yn ategu Cod Ymddygiad yr Aelodau yng nghyd-destun y system gynllunio. Mae'n bwysig bod yr Aelodau yn cymhwyso'r canllawiau yn y Cod Arferion Da hwn wrth gyflawni eu dyletswyddau statudol.